Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Dirywiad Maciwlaidd

# Uned Llygaid

**Beth yw Dirywiad Maciwlaidd?**

Clefyd llygaid sydd fel arfer yn effeithio ar bobl dros chwe deg oed yw dirywiad maciwlaidd sych. Mae niwed yn digwydd yn rhan ganolog y retina (maciwla) a ddefnyddir ar gyfer golwg manwl iawn. Ymhlith y rhan fwyaf o bobl, mae'r golwg yn gwaethygu'n araf, dros lawer o fisoedd neu flynyddoedd.

Ymhlith rhai pobl sydd â dirywiad maciwlaidd gwlyb, mae gwaedu yn digwydd y tu ôl i'r retina. Mae hyn yn achosi gostyngiad cyflym yn y golwg canolog dros ychydig ddyddiau.

**Beth yw'r symptomau?**

Efallai mai'r symptom cyntaf fydd anhawster darllen. Bydd llythrennau'n ymddangos fel eu bod ynghlwm â'i gilydd neu byddant yn ymddangos yn gymysglyd. Mae rhai pobl yn sylwi ar afluniad, er enghraifft, bydd llinellau syth yn ymddangos fel eu bod wedi'u plygu. Yn ddiweddarach, gall patsyn gwag ymddangos yn y golwg canolog. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd adnabod wynebau ac yn ei gwneud hi'n anniogel i yrru.

**A fyddaf yn mynd yn ddall?**

Na fyddwch. Ni waeth pa mor wael y daw'r golwg canolog, bydd y golwg ymylol neu'r olwg ochrol yn parhau. Bydd hyn yn caniatáu i chi ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas mewn amgylchedd cyfarwydd.

**Pa driniaeth sydd ar gael?**

Ar gyfer y mwyafrif o bobl sydd â dirywiad maciwlaidd, nid oes unrhyw driniaeth feddygol ar gael.

Ar hyn o bryd, y driniaeth fwyaf effeithiol ar gyfer dirywiad maciwlaidd gwlyb yw cwrs o bigiadau a roddir yn y llygad. Maent yn gweithredu i arafu neu atal tyfiant y pibellau gwaed abnormal a'r gollyngiadau sy'n achosi dirywiad maciwlaidd gwlyb gan ohirio cynnydd y clefyd. Bydd eich arbenigwr llygaid yn trafod yr opsiynau sydd ar gael.

**Sut alla i gael y budd mwyaf o fy ngolwg sy'n weddill?**

1. Sicrhewch fod eich sbectolau'n cael eu gwirio'n rheolaidd gan optegydd.

2. Defnyddiwch gymhorthion golwg megis chwyddwydrau. Gall eich **arbenigwr llygaid** drefnu asesiad ar gyfer y rhain.

3. Defnyddiwch olau llachar ar gyfer gwaith sydd angen i chi ei weld yn agos.

**A alla i gael fy nghofrestru fel rhywun sy’n gweld yn rhannol neu fel rhywun sy’n ddall?**

Os yw eich golwg canolog yn wael iawn, efallai y bydd eich arbenigwr llygaid yn awgrymu eich bod yn cael eich cofrestru fel rhywun sy’n gweld yn rhannol neu fel rhywun sy’n ddall. Mae taflen ar wahân ar gael sy'n ymdrin â hyn.

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg/
This document is available in Welsh”**